



DATGANIAD A PHLATFFORM GWEITHREDU BEIJING +20

CEFNDIR

Yn 1995, cynhaliwyd y Bedwaredd Gynhadledd Merched y Byd yn Beijing. Mynychodd 17,000 o gyfranogwyr o 189 o lywodraethau, tra roedd 30,000 o ymgyrchwyr anlywodraethol eraill o wledydd ar draws y byd wedi cymryd rhan mewn fforwm cyfochrog. Thema'r gynhadledd oedd cydraddoldeb rhwng y rhywiau a grymuso merched, ymhob man.

Dros y ddwy wythnos o ddadl wleidyddol a ddilynodd, cytunodd cynrychiolwyr y llywodraethau ar gyfres o ymrwymadau hanesyddol. Canlyniad hyn oedd Datganiad a Phlatform Gweithredu Beijing, fframwaith diffiniol a blaengar ar gyfer newid a'i nod oedd hyrwyddo hawliau merched a'u grymuso ymhob man. Rhoddodd proses Beijing amlygrwydd newydd i ymrymuso merched a chysylltodd fudiadau merched o amgylch y byd.

Y WELEDIGAETH

Mae Platform Gweithredu Beijing yn dychmygu byd lle y gall pob menyw a merch arfer ei rhyddid a'i dewisiadau, a gwreiddo ei holl hawliau, megis byw yn rhydd o drais, mynd i'r ysgol, cymryd rhan mewn penderfyniadau ac ennill cyflog cyfartal am waith cyfartal.

MEYSYDD SY'N ACHOSI PRYDER DIFRIFOL

Gwnaeth Platform Gweithredu Beijing ymrwymadau cynhwysfawr o dan 12 maes sy'n achosi pryder difrifol:

- Merched a'r amgylchedd
- Merched mewn pŵer a gwneud penderfyniadau
- Y ferch fach
- Merched a'r economi
- Merched a thlodi
- Trais yn erbyn merched
- Hawliau dynol merched
- Addysg a hyfforddiant merched
- Dulliau sefydliadol ar gyfer datblygu merched
- Merched ac iechyd
- Merched a'r cyfryngau
- Merched a gwrthdaro arfog

CYNNYDD ERS 1995

Mae'r Platform Gweithredu wedi helpu i wneud cynnydd a gwelliannau enfawr ym mywydau merched, gan dywys merched i swyddi gwleidyddol a chreu cyfreithiau newydd yn erbyn trais ar sail rhywedd. Mae'r cynnydd wedi'i adolygu'n rheolaidd bob pum mlynedd.

BETH NESAF?

Nid oes yr un wlad wedi cyflawni gweledigaeth y Platform o gydraddoldeb rhwng y rhywiau llawn ymhob maes o fywyd. Mae merched yn dal i ennill llai na dynion, mae 800 o ferched yn marw bob dydd wrth eni plant ac mae traean yn dioddef trais corfforol neu rywiol yn ystod eu bywydau.

BEIJING +20

Mae ymrymuso merched yn ymrymuso dynoliaeth ac mae nodi ugain mlynedd ers y gynhadledd yn Beijing yn gyfle i ailgysylltu, i adolygu'r cynnydd ac i weithredu.

"Mae Platform Gweithredu Beijing, sy'n dal yn flaengar yn 20 oed, yn cynnig ffocws pwysig i alw pobl gyda'i gilydd o gwmpas cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ymrymuso merched. Mae ei addewidion, o reidrwydd yn uchelgeisiol. Ond dros amser, a gydag egni cynyddol cenedlaethau newydd, maent o fewn cyrraedd." — Merched y Cenhedloedd Unedig.

Rhagor o wybodaeth: www.beijing20.unwomen.org

wenwales.org.uk  



Government
Equalities Office